Cyngor Cymuned Chwefror 16 2017

Presennol : Peter Tandy, Morgan Morgans, Huw Griffith, Fred Jones, Islwyn Jones

Ymddiheuriadau : Margaret Lewis, Lyn Davies

Yn absenoldeb y Cadeirydd cymerwyd y gadair gan yr Is-gadeirydd Peter Tandy.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod Ionawr 19 2017, ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi

Hysbysfwrdd y pentre.
Mae'n bleser medru dweud gyda diolch, fod yr hysbysfwrdd bellach wedi ei gywiro ac yn hawdd i'w ddefnyddio. Derbyniwyd y bil gan Peter Tandy am y defnyddiau angenrheidiol ac awdurdodwyd ei dalu. - £87.56

Deddf Yswiriant newydd
Cysylltwyd ag Un Llais Cymru a chael gwybod nad oedd eu cyfreithiwr wedi edrych i mewn i'r ddeddf newydd eto, ond y tebyg yw y byddant yn paratoi papur ar y mater ar gyfer Cynghorau. Yn y cyfamser derbyniwyd taflen a baratowyd gan Aviva sy'n mynd i fwy o fanylder. Penderfynwyd aros i weld a fyddai cwestiynau neu ofynion newydd gan gwmni yswiriant AON pan ddaw'n amser adnewyddu ddiwedd mis Mai

Biniau halen. Wedi cysylltu eto ag Aberaeron a deall nad oedd y swyddog cyfrifol wedi mynd ynghyd â'r mater eto, ond y byddai'n gwneud hynny'n fuan.

Gohebiaeth

Llythyr diolch oddi wrth Alwen Morris.

Dyddiadau cymorthfeydd Mark Williams a hysbysiad am Adolygiad Etholiadol Comisiwn Ffiniau wedi eu rhoi ar yr hysbysfwrdd

Gwybodaeth am gyfarfod o bwyllgor ardal Ceredigion o Un Llais Cymru yn Aberaeron 25 Ionawr, a digwyddiad 50+ Byw yn Dda yn Neuadd y Dref Aberteifi ar Fawrth 1af, a gwybodaeth am Bwyllgor Rheoli Datblygu mis Chwefror.

Arolwg ynglŷn â Rheoli Gwasanaethau ac Asedau. Rhoddwyd sylw manwl i'r ffurflen oedd i'w llenwi yn barod i'r clerc ei dychwelyd.

Ail-gychwyn ymgynghoriad ar waredu Ffonau Talu BT. Anfonwyd sylwadau'r Cyngor eisoes felly does dim angen gwneud eto.

Taith dros Fywyd yn gofyn a ellid trefnu taith gerdded i godi arian i Kidney Wales /Aren Cymru

Llety'r Bugail Community Fund. - Darllenwyd neges ebost oddi wrth pep renewables ynglŷn â Chronfa Gymunedol yn gysylltiedig â melin wynt a adeiladwyd ar dir Llety'r Bugail. Maent yn cynnig rhoi cyfraniad o £20,000 yn y lle cyntaf a £2,500 y flwyddyn wedyn am gyfnod o ugain mlynedd i'r Cyngor Cymuned i'w ddefnyddio er lles y Gymuned. Derbyniwyd hefyd ddraft o'r cytundeb. Ar ôl ei ystyried, codwyd ychydig o bwyntiau i'r clerc ei drafod gyda'r cwmni ac adrodd yn ôl y tro nesaf.

Hysbysiad Caniatad Cynllunio. Pantybarwn. Trosi adeiladau allanol presennol i anecs ar gyfer ymwelwyr teuluol mewn cysylltiad â'r prif dŷ. Dim gwrthwynebiad.

Cytunwyd i ofyn i Anthony Morgan weithredu fel archwiliwr mewnol eleni eto.

Arian yn y Banc ar 31 Ionawr - Cyfrif Rhif 2 - £7826.48, Cyfrif Cyfredol £1656. 07. Mae sieciau eisoes wedi eu danfon fydd yn dod â'r swm hwn lawr i £1270.07.

Tâl aelodaeth Un Llais Cymru eleni yn £74.  Awdurdodwyd ei dalu.

Dosbarthu Rhoddion.  Trafodwyd y gyllideb ac ar ôl sicrhau y byddai peth arian mewn llaw ar gyfer unrhyw gostau tebygol i fyny at ddiwedd y flwyddyn ariannol, cytunwyd i rannu rhoddion fel a ganlyn – (Section  137) Neuadd Santes Ursula  £300, Y Ddolen £100, Ambiwlans Awyr Cymru £100. Allan o arian y fferm wynt (Cyfrif rhif 2)  Ysgol Llangwyryfon £1000,  Neuadd Santes Ursula £700, Cylch Meithrin £500,  Clwb Ffermwyr Ifanc £300,  Eglwys Santes Ursula £200,  Capel Moriah £200, Capel Tabor £200,  Clwb Croeso £150,  Pwyllgor y Fynwent £100.  Penderfynwyd gohirio anfon y cyfraniad arferol i Gapel Bethel er mwyn cael amser i wirio'r sefyllfa bresennol.  Ni ddylanwadwyd ar y dosbarthu gan unrhyw aelod oedd â chysylltiad â derbynwyr y rhoddion.

Dyddiad y cyarfod nesaf fydd Mawrth 16.